

Ysgoly Gwyddorau Cymdeithasol

Rhaglenni Gradd
Israddedig 2025



CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

Croeso

Dewiswch Gaerdydd	1
Dechrau eich gyrfa	2
Lleoliadau myfyrwyr	4
Pam astudio gwyddorau cymdeithasol?	6
Cwrdd â'n tiwtoriaid	8
Astudio gyda ni	10
Profiad y myfyrwyr	11
Gwella eich profiad	12
Ein rhaglenni gradd	14
Rhaglenni gradd cydanrhydedd	17
Ceisiadau	19

**Rwyf wrth
fy modd
sut mae'r
ysgol yn
ein hannog
i fod yn
chwilfrydig
am bynciau
cysylltiedig
y mae cyd-
fyfyrwyr yn
eu hastudio.**

Rebecca Askew, Troseddeg a
Pholisi Cymdeithasol (BSc 2023)

3ydd
yn y DU am
**ymchwil
addysg**

**Ffynhonnell: Fframwaith
Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021**

10fed
yn y DU ar
gyfer ymchwil
cymdeithaseg

**Ffynhonnell: Fframwaith
Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021**

Dewiswch Gaerdydd

Astudiwch yn ein sefydliad deinamig, rhyngddisgyblaethol ac arloesol yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol.

Mae'n rhoi pleser mawr i mi eich croesawu i Brifysgol Caerdydd ac Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol.

Rydym yn ymfalchio yn ein cymuned o fyfyrwyr ac rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod pob un o'n myfyrwyr yn mwynhau profiad dysgu gwerth chweil.

Mae rhaglenni astudio yn yr ysgol yn galluogi dealltwriaeth academiaidd a chymhwysol o fywyd cymdeithasol, ac yn darparu'r offer deallusol – gwybodaeth, dadansoddi, dadl, barn – er mwyn cymryd rhan mewn trafodaethau cymdeithasol a chyhoeddus presennol.

Rydym yn cynnig graddau israddedig mewn cymdeithaseg, troseddeg, addysg, dadansoddeg gymdeithasol, gwyddorau dynol a chymdeithasol, polisi cymdeithasol, a'r gwyddorau cymdeithasol. Caiff ein rhaglenni eu harwain a'u cefnogi gan academyddion blaenllaw, y mae pob un ohonynt yn arbenigwyr yn eu meysydd astudio.

Cydnabyddir bod ein hymchwil yn arwain y byd, ac yn cael effaith uniongyrchol ar bolisiau ac arferion. Mae llawer o'n staff yn gweithredu fel cyngorwyr i sefydliadau rhyngwladol, seneddau San Steffan ac Ewrop, a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sefydliadau sector cyhoeddus a sector preifat. Mae hyn yn golygu eich bod yn cael cyfle i ddysgu gan ysgolheigion sy'n cyfrannu at ddadleuon polisi ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol.

Mae'r addysgu yn yr ysgol yn cael ei lywio a'i danategu gan yr ymchwil a'r ysgolheictod academiaidd diweddaraf. Mae ein myfyrwyr hefyd yn elwa ar ein cydweithrediadau academiaidd niferus â phrifysgolion yn Ewrop, UDA, Canada a De-ddwyrain Asia, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer lleoliadau a phrofiad gwaith yn y DU a thramor.

Gobeithiaf eich croesawu yma i Brifysgol Caerdydd yn y dyfodol agos.

Yr Athro Tom Hall
Pennaeth yr ysgol



Dechrau eich gyrfa

Mae cymhwyso theori'n ymarferol a rhoi profiad yn y byd gwaith yn agweddau pwysig ar yr hyn rydym yn ei gynnig.

O'r diwrnod cyntaf, rydym ni'n eich annog i feddwl am fywyd y tu hwnt i'r brifysgol, gan gynnig modiwlau a chefnogaeth i roi mantais gystadleuol i chi pan fyddwch chi'n graddio.

Bydd astudio gradd yn y gwyddorau cymdeithasol yn eich helpu i ddatblygu sgiliau fel hunandibyniaeth ddeallusol, y gallu i brosesu gwybodaeth a gwneud dyfarniadau ystyriol, beirniadaeth adeiladol, a pharodrwydd i chwilio am atebion. Bydd hyn yn eich galluogi i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy o ran cyfathrebu, gweithio mewn tîm, datrys problemau, rheoli amser, a thechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae gan ein myfyrwyr enw rhagorol am ddod o hyd i waith ar ôl iddynt raddio. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod 97% o'n graddedigion mewn swydd a/ neu'n astudio ymhellach, ar fin dechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio 15 mis ar ôl gorffen eu cwrs*.

Mae graddedigion o'r Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol yn dewis llwybrau gyrfa amrywiol, gan gynnwys gwasanaeth yr heddlu, gwaith cymdeithasol, gwasanaethau lles a thai, gwaith ieuencid, addysgu, datblygu cymunedol, cwnsela ac eiriolaeth.

Y gwasanaeth gyrfaoedd a chyflogadwyedd

Rydym yn cynnig cyngor ac arweiniad i'n myfyrwyr ar bob cam o'u hastudiaethau israddedig ac ôl-raddedig, a hyd at ddwy flynedd ar ôl graddio. Mae cynghorydd gyrfaoedd penodedig ein hysgol a gwasanaeth gyrfaoedd a chyflogadwyedd y brifysgol (Dyfodol Myfyrwyr) yn cyflwyno ystod wedi'i theilwra o ddigwyddiadau cysylltiedig â gyrfaoedd drwy gydol y flwyddyn a gallant eich helpu i gyflawni eich dyheadau gyrfael drwy ystod o weithgareddau penodol, gan gynnwys:

- apwyntiadau cyngor gyrfaoedd un-i-un
- gweithdai gyrfaoedd, gan gynnwys ysgrifennu CV, ceisiadau, rhwydweithio cymdeithasol a chyfweliadau
- digwyddiadau rhwydweithio proffesiynol a ffeiriau gyrfaoedd gyda chyflogwyr graddedigion blaenllaw
- siaradwyr gwadd proffesiynol
- lleoliadau profiad gwaith a chyngor
- bwrdd swyddi sy'n cynnwys swyddi gwag i raddedigion, interniaethau a lleoliadau gwaith.



www.cardiff.ac.uk/cy/study/student-life/student-support/careers-and-employability



“ Mae gweld sut mae'r 'byd go iawn' yn gweithio ac yn delio â'r union bethau rydych chi'n dysgu amdany'n nhw yn y brifysgol mor ddefnyddiol ar gyfer rhoi pethau yn eu cyd-destun.

Roeddwn i'n teimlo bod bod mewn swyddfa wedi fy helpu i ddysgu cymaint o sgiliau y gallai fod eu hangen arnaf yn y gwaith ar ôl y brifysgol.

Evangeline Cleverly, Gwyddorau Dynol a Chymdeithasol (BSc 2023)





Lleoliadau myfyrwyr



Amy Reed, Troseddeg a
Chymdeithaseg gyda Blwyddyn ar
Leoliad Proffesiynol (BSc 2023)

Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd,
CEM y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr

Rhoddodd fy mlwyddyn ar leoliad gychwyn delfrydol i fy ngyrfa.

Fy mhrif rôl oedd rhoi cyngor a
chefnogaeth i garcharorion a'u
teuluoedd drwy gydol eu dedfryd.

Roeddwn i hefyd yn helpu i gwblhau
dogfennau llysoedd teulu, cynorthwyo
teuluoedd i ysgrifennu llythyrau at eu
plant, neu drefnu ymweliadau cyswllt
trwy gysylltu â gweithwyr cymdeithasol.

Fy hoff ran o weithio yn y carchar oedd
gallu defnyddio'r sgiliau a ddatblygais i
yn y brifysgol i ymchwilio, cynllunio a
chreu fy ymyrraeth deuluol fy hun.

Roeddwn i mor falch fod y carchar
wedi rhoi fy nghynllun ar waith ac yn
hynod o ddiolchgar am y profiad.

Pe bai myfyriwr yn fy holi am leoliadau
gwaith, byddwn yn bendant yn

argymhell blwyddyn ar leoliad oherwydd
rhoddodd y cyfle perffaith i mi gael
cipolwg ar fy ngyrfa a'm diwydiant
dewisol.

Yn well fyth, gall arwain at gael eich
troed yn y drws, gan i mi gael cynnig
swydd gweithiwr cymorth i deuluoedd
yn y carchar.

Rhoddodd fy lleoliad gwaith hyder i mi
a gwybodaeth helaeth o'r byd go iawn,
gan fy helpu yn fy mlwyddyn olaf ym
Mhrifysgol Caerdydd ac i gael swydd.



**Darllenwch flog
llawn Amy**



Emelie Baker, Dadansoddeg
Gymdeithasol – Blwyddyn ar Leoliad
Proffesiynol (BSc)

**Cynorthwydd Ymgysylltu a
Phrofiad Myfyrwyr**, Prifysgol Caerdydd

Roedd fy lleoliad wir wedi fy helpu i ddatblygu fy sgiliau dadansoddi a magu hyder.

Yn ystod fy mlwyddyn lleoliad, arhosais
ym Mhrifysgol Caerdydd ac roeddwn
yn Cynorthwydd Ymgysylltu a
Phrofiad Myfyrwyr, ond gwnes i hefyd
lawer o ddadansoddiadau ystadegol yn
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol.

Fy hoff foment ar leoliad oedd wythnos
gyntaf y semester, felly roeddwn yn fath o
hanner gweithio a hanner fel myfyriwr.
Roedd yn braf iawn gweld dwy ochr yr
Wythnos Groeso yn y brifysgol.

Gwelais i ble roedd fy ngwaith o
amgylch blynyddoedd lleoliad a sut y
gallwn eu gwella yn yr ysgol yn mynd.

Fe wnaeth fy lleoliad fy helpu i
ddatblygu fy sgiliau dadansoddi, gan

dddefnyddio'r hyn roeddwn i wedi'i
ddysgu yn fy modiwlau yn fy mlwyddyn
gyntaf ac ail flwyddyn yn y brifysgol a'u
rhoi mewn gwirionedd ar waith.

Rwyf nawr yn teimlo y gallwn gael set
o broblemau a'i gwneud o'r dechrau i'r
diwedd, gan wybod yn union beth sydd
angen ei wneud.

Fe wnaeth adeiladu fy hyder mewn
gwirionedd.



**Gwylwch sesiwn
holi ac ateb Emelie
yn llawn**



Pam astudio gwyddorau cymdeithasol?

Yn y bôn, mae astudio'r gwyddorau cymdeithasol yn golygu eich bod yn astudio cymdeithas.

Rydym yn byw mewn byd a ddiffinnir gan newid a rhyng-gysylltiad cynyddol. O globaleiddio a newid technolegol i anghydraddoldebau cymdeithasol a gwrthdaro gwleidyddol, ni fu erioed yn bwysicach deall y berthynas rhwng pobl a chymdeithas na deall y prosesau a'r rhyngweithiadau cymdeithasol sy'n llywio pwy ydym ni.

Yn ei hanfod, mae'r gwyddorau cymdeithasol yn ymwneud â deall y berthynas a'r rhyngweithio rhwng unigolion, grwpiau, sefydliadau a strwythurau cymdeithasol:

- Sut mae cyfoeth, pŵer a braint yn cael eu dosbarthu mewn cymdeithas?
- Beth yw achosion trosedd neu anghydraddoldebau iechyd?
- Beth yw rôl y wladwriaeth o ran darparu lles?

- Pam mae cyrhaeddiad addysgol yn amrywio rhwng grwpiau demograffig?
- Sut ydyn ni, y bobl, yn newid ac yn dylanwadu ar gymdeithas?

Mae'r gwyddorau cymdeithasol yn gofyn y cwestiynau mawr am yr hyn sy'n digwydd yn ein cymdeithas heddiw.

Yn ein holl raglenni gradd, rydym yn annog myfyrwyr i weld a dychmygu cymdeithas mewn ffordd wahanol – i ddeall y berthynas rhwng profiadau unigol a'r grymoedd cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol mwy sy'n eu llunio.

Credwn fod meddu ar ddychymyg cymdeithasegol yn offeryn gwerthfawr i unrhyw un sydd am gael dealltwriaeth ddyfnach o'r byd cymdeithasol – i'ch helpu i wneud synnwyr o'ch profiadau eich hun a phrofiad pobl eraill mewn ffordd ehangach a mwy cyfannol.



Os ymunwch â ni, byddwch yn datblygu sgiliau meddwl beirniadol a dadansoddi sy'n werthfawr, nid yn unig yn eich gyrfaoedd academiaidd, ond hefyd yn eich bywydau personol a phroffesiynol. Gellir defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau a gafwyd o'r gwyddorau cymdeithasol mewn ystod eang o yrfaedd, gan gynnwys addysg, y gyfraith, busnes, polisi cymdeithasol, a sefydliadau dielw.

Dr Michael Arribas-Ayllon,
Cyfarwyddwr Recriwtio a Derbyn
Myfyrwyr





Cwrdd â'n tiwtoriaid

Yr Athro Trevor Jones Troseddeg

Troseddeg yw'r astudiaeth wyddonol gymdeithasol o drosedd ac ymatebion i drosedd.



Mae'n bwnc gwleidyddol canolog. Mae'n allweddol yn yr holl adroddiadau newyddion, ac mae'n nodwedd amlwg o ddiwylliant poblogaidd o ran darluniadau teledu a ffilm o droseddu a phlisma.

Mae arnom angen pobl sy'n gallu cynnig dull ysgolheigaidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddeall y broblem gymdeithasol wirioneddol bwysig hon.

Mae nifer o'n graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio yn y llywodraeth a'r byd polisi, yn yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol.

Rhagor o wybodaeth am Droseddeg (BSc)



Dr Kevin Smith Addysg

Byddwch yn gweithio gydag arbenigwyr addysgol ac ymchwilwyr sy'n ymestyn ffiniau gwybodaeth a disgyblaeth addysg.



Gyda ni, byddwch yn gallu astudio cysyniadau fel sut mae anghydraddoldeb pŵer a symudedd cymdeithasol yn berthnasol i addysg. Byddwch yn gallu deall sut mae polisi addysgol yn cael ei ddehongli a thystiolaeth ymchwil yn cael ei rhoi ar waith yn ymarferol.

Yn ogystal, byddwn hefyd yn sicrhau eich bod yn barod gyda'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i fod yn wyddonwyr cymdeithasol ac yn gallu trafod a chymryd rhan yn nhrefnadau addysgol heddiw.

Rhagor o wybodaeth am Addysg (BSc)



Dr Katy Greenland Y gwyddorau dynol a chymdeithasol

Yn y bôn, astudiaeth o seicoleg yw'r cwrs hwn. Mae'n ymwneud â bodau dynol yn eu hamgylcheddau cymdeithasol a beth sy'n eu gyrru nhw ac yn gwneud iddynt wneud y pethau a wnânt.



Mewn rhai ffyrdd, mae'n radd eithaf ymarferol yn yr ystyr y gallwch chi edrych ar y pethau bob dydd a gwneud synnwyr ohonynt: y ffordd rydych chi'n dadlau gyda'ch cyd-letywyr, y profiad o fynd i'r ysgol, a'r ffordd y mae pobl yn trefnu eu hunain mewn lleoliadau cymdeithasol fel tafarndai, clybiau nos neu stondinau pêl-droed.

Rhagor o wybodaeth am y Gwyddorau Dynol a Chymdeithasol (BSc)



Dr Sioned Pearce Cymdeithaseg a pholisi cymdeithasol

Mae astudio polisi cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd yn canolbwyntio ar ddeall yr achosion a'r atebion posibl i amrywiaeth o broblemau cymdeithasol, gan gynnwys digartrefedd a'r argyfwng mewn gofal cymdeithasol, tai, addysg a lles. Mae'n gwrs deinamig a rhyngdisgyblaethol sy'n tynnu ar gymdeithaseg, economeg, daearyddiaeth a hyd yn oed pethau fel archaeoleg.



Cyflwynir y modiwlau gan arbenigwyr sy'n weithgar yn eu maes ymchwil, felly mae cynnwys darlithoedd yn cynnwys ymchwil amser real, a gynhelir yn aml gan ddarlithwyr y mae eu hymchwil yn dylanwadu ar bolisi.

Rhagor o wybodaeth am Gymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol (BSc)



Dr Nick Bailey Y gwyddorau cymdeithasol

Prif atyniad ein rhaglen yw ei natur rhyngdisgyblaethol.

Os ydych chi wedi gwneud ychydig o gymdeithaseg ac ychydig o drosedddeg, er enghraifft, cewch gyfle i edrych ar gymdeithas o amrywiaeth o safbwyntiau.



Mae elfen gref o'n cwrs i'w gweld ymhlith dulliau ymchwil, a sut i ymchwilio i'r gymdeithas yr ydym yn byw ynddi a'i holi'n ddwys. Mae'n sgil gwerthfawr ar gyfer meddwl yn feiriadol, a fydd yn ddefnyddiol mewn unrhyw agwedd ar yrfa rydych chi am fynd ymlaen â hi.

Rhagor o wybodaeth am y Gwyddorau Cymdeithasol (BSc)



Dr Daniel Smith Cymdeithaseg

Mae'r astudiaeth o gymdeithaseg yn astudiaeth o sut mae cymdeithas yn bosibl, am sut mae bodau dynol yn adeiladu'r byd o'n cwmpas er mwyn byw. Nid oes unrhyw ffordd naturiol o fod fel bod dynol.



Mae hefyd yn golygu bod astudiaeth cymdeithas yn ymwneud â hapddigwyddiadau. Nid oes unrhyw ffordd angenrheidiol o fod fel rhywogaeth neu gymdeithas y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â hi.

Yn aml, gall deimlo ein bod ni'n byw mewn byd lle mae gan bawb ei farn wahanol ac yn aml y gall deimlo nad oes unrhyw synnwyr o'r hyn sy'n dda a'r hyn sy'n ddrwg. Hyd yn oed os oes gennych ymdeimlad o'r hyn sy'n dda, bydd ymdeimlad o rhywbeth drwg sy'n dod ynghyd ag ef.

Gyda ni, byddwch yn ceisio dadbacio'r holl wahanol ffyrdd y mae'r ffawtlinau diwyllianol a chymdeithasol hyn yn ymddangos a beth yw eu hachosion sylfaenol.

Rhagor o wybodaeth am Gymdeithaseg (BSc)



Dr Honor Young Dadansoddeg gymdeithasol

Mae ein rhaglen yn radd unigryw a chyffrous sy'n hyfforddi myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth wyddonol o'r byd cymdeithasol yr ydym yn byw ynddo.



Byddwch yn ymgymryd ag ymchwil drylwyr i archwilio gwahanol fathau o ffynonellau data sy'n torri ar draws holl ddisgyblaethau'r gwyddorau cymdeithasol.

Mae'n wych i unrhyw un sydd â diddordeb mewn astudio pynciau fel rhyw, ethnigrwydd, mudo, tlodi, anghydraddoldebau neu iechyd.

**Rhagor o wybodaetham
Ddadansoddeg
Gymdeithasol (BSc)**



Dr Sion Jones Darpariaeth Gymraeg yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i fyfyrwyr sy'n astudio yn y Gymraeg, gan gynnwys seminarau mewn nifer o fodiwlau gwahanol ac mewn pynciau megis troseddeg, cymdeithaseg, ymchwil gymdeithasol a theori gymdeithasol.



Gall myfyrwyr a staff hefyd fynychu cyfarfodydd anffurfiol yn Gymraeg i greu cymuned ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr fel ei gilydd, yn ogystal â seminarau ar wahân.

Mae astudio yn y Gymraeg yn wych ar gyfer eich cyflogadwyedd yn y dyfodol. Bydd gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn fantais fawr pan fyddwch yn chwilio am waith, nid yn unig yng Nghymru ond hefyd mewn mannau eraill yn y DU ac ar draws y byd.

**Rhagor o wybodaeth am
ddarpariaeth Gymraeg yn
Ysgol y Gwyddorau
Cymdeithasol**



Astudio gyda ni

Bydd yr hyn y byddwch yn ei astudio gyda ni yn ymwneud yn uniongyrchol â'r hyn sy'n digwydd yn y byd, a bydd yn eich galluogi i ddeall a chyfrannu at ddadleuon cyfoes mewn ffordd wybodus.

Rydym yn ysgol ryngddisgyblaethol sydd ag enw da am ragoriaeth academiaidd. Roeddem yn 3ydd ac yn 10fed yn y DU ar gyfer ein hymchwil mewn addysg a chymdeithaseg yn y drefn honno yn asesiad Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF 2021) diweddaraf y DU.

Mae pob un o'n rhaglenni gradd wedi'u cynllunio i addysgu sylfeini eu disgyblaethau ochr yn ochr â'r egwyddorion damcaniaethol a methodolegol sy'n sail i'r gwyddorau cymdeithasol. Mae llawer o'n rhaglenni yn rhoi cyfleoedd i chi deilwra eich astudiaethau drwy ddewis modiwlau sy'n gysylltiedig â'ch diddordebau academiaidd neu broffesiynol, yn ogystal ag astudio ar draws y llu o ddisgyblaethau a addysgir yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig graddau anrhydedd sengl mewn troseddeg, addysg a chymdeithaseg, yn ogystal â graddau anrhydedd sengl rhyngddisgyblaethol mewn gwyddorau

cymdeithasol, dadansoddeg gymdeithasol, a gwyddorau dynol a chymdeithasol.

Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o raddau cydanrhydedd, gan roi'r cyfle i chi gyfuno pynciau o fewn ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ac ysgolion academiaidd eraill.

Mae llawer o'n rhaglenni yn cynnig y cyfle i chi ymestyn eich gradd i bedair blynedd, gan dreulio'r drydedd flwyddyn ar leoliad proffesiynol neu'n astudio dramor.

Addysgu

Rydym yn ganolfan a gydnabyddir yn rhyngwladol o ran addysgu ac ymchwil o safon uchel. Caiff ein graddau eu haddysgu gan ymchwilwyr sydd ar flaen y gad yn eu pynciau, y mae eu harbenigedd a'u dirnadaeth yn llywio llywodraethau a llunwyr polisi yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Mae'r dysgu'n digwydd mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys darlithoedd, ymarferion ymarferol, gweithdai rhyngweithiol a seminarau.

Rydym yn rhoi gwerth mawr ar gyfranogiad myfyrwyr mewn addysgu a dysgu, gan annog adborth gan fyfyrwyr ar bob un o'n rhaglenni.

Ansawdd gwaith ymchwil

Mae ein hysgol yn ganolfan ymchwil ddylanwadol. Mae ganddi ganolfannau a grwpiau arbenigol sy'n cyfrannu at amgylchedd ymchwil bywiog. Rydym yn cynnal seminarau ymchwil, sgysiaau a chynadleddau yn rheolaidd.

Meysydd ymchwil yr ysgol yw:

- gwyddoniaeth, technoleg a risg
- troseddu, diogelwch a chyfiawnder
- addysg a pholisi addysg
- iechyd a gofal cymdeithasol
- anghydraddoldeb, llafur a dyfodol gwaith
- pobl, lleoedd a pholisïau



Profiad y myfyrwyr

Mae sicrhau bod ein myfyrwyr yn cael y profiad gorau posibl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Neilltuir tiwtor personol i bob myfyriwr a fydd yn brif gyswllt i chi ar gyfer unrhyw gymorth academiaidd a bugeliol.

Byddwch yn cwrdd â'ch tiwtor personol yn rheolaidd i drafod eich cynnydd academiaidd, i gael adborth a chynghor, ac i wneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae gennym hefyd banel staff myfyrwyr gweithgar sy'n rhan annatod o brofiad myfyrwyr yn yr ysgol.



Rhagor o wybodaeth am beth oedd gan fwy o'n myfyrwyr presennol i'w ddweud am astudio gyda ni.



Rwyf wrth fy modd â'r athrawon a pha mor garedig ydyn nhw – os ydych chi'n anfon e-bost atynt, fe ddônt yn ôl atoch chi yn gyflym iawn.

Pe bai gen i ffrind yn meddwl am ddod i Gaerdydd, byddwn i'n dweud bod pawb yn gyfeillgar, mae canol y dref yn dda iawn, mae yna bethau i'w gwneud bob amser.

Ayotola Olaopa, Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol (BSc)

Gwella eich profiad

Mae llawer o'n rhaglenni yn cynnig y cyfle i wella eich gradd drwy dreulio blwyddyn dramor neu drochi eich hun mewn diwylliant newydd, neu i wneud blwyddyn broffesiynol ar leoliad er mwyn datblygu eich sgiliau yn y gweithle.

Treulio amser dramor

Mae astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor yn gyfle gwych i ymgolli mewn diwylliant gwahanol, gwneud ffrindiau newydd, dysgu iaith newydd, a gwella eich rhagolygon gyrfa. Bydd treulio amser dramor yn eich helpu i ddatblygu ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy a werthfawrogrir gan gyflogwyr, gan gynnwys annibyniaeth a chyfrifoldeb, trefnu a rheoli amser, datrys problemau, sgiliau cyfathrebu, a gwydnwch a'r gallu i addasu.

Mae'r rhan fwyaf o'n rhaglenni yn cynnig y cyfle i ymestyn eich

astudiaeth i bedair blynedd, gan dreulio eich trydedd flwyddyn yn astudio dramor.

Gallwch hefyd ymgymryd â phrosiectau ymchwil, neu weithio a gwirfoddoli mewn sefydliadau ledled y byd.

Lleoliad proffesiynol

Gellir ymestyn llawer o'n rhaglenni i bedair blynedd, gan dreulio'r drydedd flwyddyn ar leoliad proffesiynol. Mae myfyrwyr sy'n ymgymryd â lleoliad proffesiynol yn datblygu eu sgiliau cyflogadwyedd, yn cael cipolwg

ar sefydliad a gyrfa, ac yn dechrau datblygu rhwydwaith o gysylltiadau proffesiynol.

Mae ein myfyrwyr wedi sicrhau lleoliadau blwyddyn o hyd mewn amrywiaeth o sefydliadau drwy Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, gan gynnwys yr Adran Masnach Ryngwladol, yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru.

Os ydych chi ar gael ar eich rhaglen ddewisol, gallwch wneud cais i ymestyn eich astudiaeth i bedair blynedd yn eich ail flwyddyn.





Ein rhaglenni **gradd**

Gwyddorau Gymdeithasol BSc Cod UCAS: L301

Bydd y radd ryngddisgyblaethol hon yn eich galluogi i gyfuno dulliau a damcaniaethau gwahanol ddisgyblaethau i ddysgu a deall rhagor.

Bydd y rhaglen hyblyg hon, hawdd ei haddasu, yn gadael ichi astudio ar draws maes y gwyddorau cymdeithasol, gan gynnwys cymdeithaseg, trosedddeg, addysg, dadansoddeg gymdeithasol, polisiau cymdeithasol a seicoleg. O ganlyniad i hyblygrwydd y rhaglen hon, mae modd cael blas ar sawl pwnc ar draws yr amrywiaeth helaeth o ddewisiadau sydd ar gael. Ar y llaw arall, cewch chi drefnu'ch astudiaethau yn ôl themâu i ystyried rhyw bwnc megis rhywedd, ethnigrwydd ac anghydraddoldeb o sawl safbwynt.



Barn ein graddedigion...

Roedd y cwrs hwn yn gyfle i mi astudio amrywiaeth o agweddau o fewn cymdeithaseg a chynigiodd ragolygon hyblyg i mi o ran swyddi.

Mwynheais sut roeddwn i'n gallu astudio ystod eang o bynciau o fewn y gwyddorau cymdeithasol, fel seicoleg ac addysg.

Alexandra Moore,
Social Science (BSc 2018)

Trosedddeg BSc Cod UCAS: L370

Rydym ni'n cynnig cyfle i astudio trosedddeg fel gradd ryngddisgyblaethol, gan gyfuno dulliau a damcaniaethau amryw ddisgyblaethau i ddysgu a deall rhagor am droseddau a sut mae'i reoli.

Hanfod trosedddeg yw astudio sut mae carfanau neu fathau o ymddygiad yn ein cymdeithas yn cael eu diffinio'n rhai 'gwrthgymdeithasol' neu 'droseddol', sut mae gwahanol ffyrdd o drin a thrafod polisiau cyfiawnder troseddol yn cadw'r ddysgi yn wastad rhwng diogelu, adsefydlu a rheoli, a sut mae profiadau dioddefwyr yn effeithio arny'n nhw.

Mae'n rhaglen yn cynnwys elfennau o amrywiaeth o ddisgyblaethau'r gwyddorau cymdeithasol megis cymdeithaseg, polisiau cymdeithasol, y gyfraith, y gwyddorau gwleidyddol, hanes ac anthropoleg. Prif fyrdwn yr astudio yw meithrin 'dychymyg troseddol' yn y gwyddorau cymdeithasol, gan ddechrau trwy ystyried sut y gall gwyddonydd cymdeithasol ddatrys problemau troseddol, cyfiawnder a rheoli cyn rhoi canlyniadau'r ymchwil honno ar waith i ddatgelu materion a thrafodaethau yn y byd go iawn.

Yn ystod y cwrs, byddwch chi'n dysgu am natur arbenigol ymchwil droseddol a'r modd mae prosesau cyfiawnder troseddol a rheoli troseddol yn gweithredu.



Addysg BSc Cod UCAS: 8G46

Mae'r rhaglen hon ar gyfer myfyrwyr a chanddynt ddiddordeb ym maes addysg sy'n chwilio am gyfle i astudio'r pwnc yng nghyd-destun eang y gwyddorau cymdeithasol.

Mae addysg yn bwnc gwyddor gymdeithasol ysgogol a heriol sy'n ymchwilio i sylfeini cymdeithasol, seicolegol, gwleidyddol ac economaidd addysg ac yn eu cwestiynu.

Caiff yr addysgu ar y rhaglen hon ei lywio gan ein hymchwil ym maes addysg a datblygiadau mewn polisi ac ymarfer, gan gwmpasu agweddau ar ddiwylliant a hunaniaeth, plentyndod ac ieuencid, rhyw ac ethnigrwydd, a chyfiawnder a chynhwysiant cymdeithasol.

Byddwch yn elwa ar ein cysylltiadau agos â llunwyr polisiau yn ogystal ag ysgolion lleol, colegau, a sefydliadau addysg a hyfforddiant eraill. Ar y rhaglen hon, byddwch yn cael cyfleoedd i ymgysylltu ag addysgwyr ac ymarfer i ddatblygu eich profiad eich hun, ac i gymhwyso theori ac arferion i sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Mae modiwlau craidd y rhaglen hon wedi'u hanelu at ddatblygu dealltwriaeth ddofn o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol, gwleidyddol, economaidd a datblygiadol addysg yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol, gan ganiatáu i chi ystyried addysg mewn cyd-destun byd-eang.

Cydanrhydedd

- Cymdeithaseg ac Addysg
Cod UCAS: 8J46 (gweler tudalen 19)
- Cymraeg ac Addysg
Cod UCAS: QX53 (gweler tudalen 19)



Polisi Cymdeithasol BSc

(fel rhaglen cydanrhydedd yn unig)

Codau UCAS:

gweler y blwch Cydanrhydedd isod

Mae polisi cymdeithasol yn astudio sut mae cymdeithasau'n ymateb i anghenion dynol, ac yn ceisio hyrwyddo lles eu haelodau.

Mae'r astudiaeth o bolisi cymdeithasol yn darparu dealltwriaeth feirniadol o'r heriau sy'n ymwneud ag ymateb i anghenion dynol, a rheoli'r ddarpariaeth o wasanaethau cymdeithasol. Byddwch yn astudio dadleuon am nodau polisi: sut rydym yn penderfynu beth yw anghenion dynol, pwy sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion dynol, a beth rydym yn ei olygu wrth 'gyfiawnder cymdeithasol'.

Mae ein rhaglen yn archwilio polisiau mewn amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys nawdd cymdeithasol, addysg, iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol personol, yn ogystal â pholisiau sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau newydd fel mynd i'r afael â chynhesu byd-eang a hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae gradd polisi cymdeithasol yn rhoi sylfaen gadarn i chi mewn dadleuon a damcaniaethau allweddol am y wladwriaeth, cymdeithas a lles. Byddwch chi'n dysgu sut i werthuso a dehongli tystiolaeth, defnyddio damcaniaethau, ac archwilio polisiau mewn modd gwrthrychol.

Mae polisi cymdeithasol ar gael fel rhaglen gydanrhydedd yn unig.

Cydanrhydedd

- **Troseddeg a Pholisi Cymdeithasol**
Cod UCAS: 8D46 (gweler tudalen 19)
- **Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol**
Cod UCAS: 8K46 (gweler tudalen 19)

Cymdeithaseg BSc

Cod UCAS: 8H46

Astudiwch un o'r disgyblaethau gwyddorau cymdeithasol hynaf a mwyaf clodfawr yn un o'r canolfannau gwyddorau cymdeithasol mwyaf a mwyaf llwyddiannus yn y DU.

Mae cymdeithaseg yn ymwneud yn benodol ag astudio bywyd cymdeithasol fel y'i ceir mewn grwpiau, sefydliadau a chymdeithasau. Mae gradd mewn cymdeithaseg yn rhoi'r adnoddau hanfodol sydd eu hangen i ddehongli pob agwedd ar ymddygiad cymdeithasol, o gymhlethdodau ryngweithiadau wyneb yn wyneb, i sut mae gweithredoedd a chredoau unigol yn ffurfio ac yn cael eu llywio gan y byd o'u cwmpas.

Caiff ein rhaglen ei nodweddu gan ymchwil empirig fanwl sy'n seiliedig ar ddamcaniaethau. Mae arbenigedd ymysg ein staff yn cynnwys plentyndod, ieuencid a heneiddio, astudio rhywioldeb, iechyd a'r corff, adeiladu ac ailadeiladu hunaniaethau, cynnydd mewn diwylliant defnyddwyr, a'r trawsnewidiadau dwys i fywyd cymdeithasol, diwylliannol a phreifat y mae globaleiddio economaidd a thechnolegol wedi'u cyflawni.



Barn ein graddedigion...

“ Yn ystod fy ngradd, mwynheais yr ystod o safbwyntiau a astudiwyd gennym, y ffaith bod ein darlithwyr a'n harweinwyr seminar yn weithgar yn eu maes ymchwil, a'n bod yn dysgu gan ymchwilwyr ar frig eu maes.

Emily Raj, Addysg (BSc 2022)



Barn ein graddedigion...

“ Rydw i wir wedi mwynhau cael perthnasoedd a sgysriau da gyda staff a thiwtoriaid, a datblygu fy syniadau a'm safbwyntiau fy hun trwy ymgysylltu â phynciau ar draws ystod eang o ddisgyblaethau a swyddi.

Peter Teuten, Gwleidyddiaeth a Chymdeithaseg (BSc Econ 2023)



Gwyddorau Dynol a Chymdeithasol BSc

UCAS Code: 58H2

Mae'r gwyddorau dynol a chymdeithasol yn gyfle unigryw i astudio seicoleg ochr yn ochr â modiwlau o ddisgyblaethau eraill ar draws yr ysgol.

Achredir y cwrs gan Gymdeithas Seicolegol Prydain fel man cychwyn aelodaeth graddedigion ohoni, ac mae'r cwrs yn darparu persbectif integredig ar seicoleg, gan bwysleisio'r agweddau cymdeithasol, cysniadol a hanesyddol, ynghyd â chraidd o ddulliau ymchwil gymdeithasol.

Yr unig gwrs o'i fath sydd ar gael ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig, bydd y rhaglen hon yn eich galluogi i ddatblygu ystod o sgiliau a gwybodaeth wrth i chi ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o seicoleg fel gwyddor gymdeithasol mewn ystod o faterion megis newid cymdeithasol, rhywedd, dosbarth ac ethnigrwydd.

Yn ogystal â modiwlau craidd mewn seicoleg a dulliau ymchwil gymdeithasol, gallwch astudio ystod eang o fodiwlau mewn addysg, cymdeithaseg, polisiau cymdeithasol a dadansoddeg gymdeithasol.

Mae hyblygrwydd y rhaglen hon yn eich galluogi i deilwra eich modiwlau dewisol i lwybr penodol os oes gennych yrfa benodol mewn golwg. Ar y llaw arall, cewch chi ddilyn llwybr aml ei ddisgyblaethau trwy astudio amrywiaeth o bynciau a thrafodaethau ar draws y gwyddorau cymdeithasol.



Barn ein graddedigion...

“Y peth gorau am astudio yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol fu dysgu am groesi ffiniau pynciau. Mae dysgu am hyn wir wedi fy helpu i ddatblygu fel myfyriwr ac wedi fy ngalluogi i ddod o hyd i'm lle ym myd y gwyddorau cymdeithasol.

Learning about this has really helped me to develop as a student and has allowed to find my place in the world of social sciences.

Chloe Davis, y Gwyddorau Dynol a Chymdeithasol (BSc 2023)

BSc Dadansoddeg Gymdeithasol BSc

Cod UCAS: J3G5

Bob dydd yn y papurau newydd, mae ystadegau am bopeth megis Brexit, ymfudwyr, mamau yn eu harddegau ac iechyd rhywiol.

Mewn byd llawn data, ffigurau ac ystadegau, mae dadansoddeg gymdeithasol yn canolbwyntio ar wneud synnwyr o'r byd cymdeithasol rydym ni'n byw ynddo trwy werthuso honiadau am wybodaeth.

Mae'r rhaglen hon yn cynnig cyfle unigryw i ymchwilio i'n cymdeithas trwy ymchwil feintiol mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau megis cymdeithaseg, troseddeg, y gwyddorau dynol a chymdeithasol, polisiau cymdeithasol ac addysg. Mae dadansoddeg gymdeithasol yn radd ryngddisgyblaethol sy'n addas i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn themâu ar draws y gwyddorau cymdeithasol megis anghydraddoldeb, iechyd, gwyrriad, rhywedd ac ethnigrwydd.

Dyma'r unig raglen yn yr ysgol sy'n gwarantu lleoliad gwaith. Mae myfyrwyr wedi bwrw tymor yn ddiweddar mewn sefydliadau megis Llywodraeth Cymru, Agored Cymru, Gwasanaeth Gwaed Cymru, Chwarae Teg a Chymdeithas Pêl-rwyd Cadeiriau Olwynion Cymru.

Rhaglenni gradd cydanrhydedd

Mae ein rhaglenni cydanrhydedd yn eich galluogi i astudio dau bwnc. Mae hyn yn golygu y gallech astudio un o'ch meysydd diddordebau wrth ddysgu am bwnc newydd ar yr un pryd.

Mantais allweddol yw, ar ôl graddio, efallai y byddwch yn gweld bod mwy o gyfleoedd gwaith ar gael i chi yn seiliedig ar ehangder yr hyn rydych wedi'i astudio.

Os byddwch yn dewis astudio un o'n rhaglenni cydanrhydedd, cewch gyfle i ddeall y gwyddorau cymdeithasol ar draws dwy ddisgyblaeth graidd a sut maent yn rhyngweithio â'i gilydd.

Ein rhaglenni gradd cydanrhydedd

- **Troseddeg a Pholisi Cymdeithasol**
Cod UCAS: 8D4
- **Troseddeg a Chymdeithaseg**
Cod UCAS: 8F46
- **Y Gyfraith a Throseddeg**
Cod UCAS: M190
- **Gwleidyddiaeth a Chymdeithaseg**
BSc Econ
Cod UCAS: LL32
- **Cymdeithaseg ac Addysg**
Cod UCAS: 8J46
- **Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol**
Cod UCAS: 8K46



BA Cymraeg ac Addysg Cod UCAS: QX53

Mae'r cwrs cydanrhydedd hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr Cymraeg iaith gyntaf gyfuno astudio'r Gymraeg gyda pholisi addysgol a theori datblygiad.

Mae modiwlau a ddysgir gan Ysgol y Gymraeg yn anelu at gynhyrchu graddedigion â dealltwriaeth academaidd ac ymarferol drylwyr o'r iaith Gymraeg a'i llenyddiaeth a'i diwylliant, lefel uchel o sgiliau mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar, a sgiliau cyflogadwyedd a chreadigol datblygedig sy'n berthnasol i Gymru fodern.

Nod y modiwlau addysg a addysgir gan Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol yw datblygu dealltwriaeth ddofn o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol, gwleidyddol, economaidd a datblygiadol addysg yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.





Ceisiadau

I gael eich ystyried ar gyfer mynediad i unrhyw rai o'r cyrsiau israddedig a gynigir yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, dylech wneud cais drwy UCAS:

UCAS, Rosehill, New Barn Lane,
Cheltenham, Glos, GL52 3LZ, UK
www.ucas.com

Gofynion mynediad

Safon Uwch: Fel arfer, mae'r ysgol yn gofyn am dair Safon Uwch (neu gyfwerth) mewn pynciau heblaw Astudiaethau Cyffredinol. Mae ein gofynion mynediad Safon Uwch safonol presennol yn amrywio o AAB i BBB yn dibynnu ar y rhaglen gradd.

Ni fydd pynciau lefel UG yn cael eu derbyn fel rhai sy'n cyfrannu at y gofynion mynediad.

TGAU: Mae angen Saesneg ar radd C neu gyfwerth ac mae Mathemateg yn ddymunol.

Y Fagloriaeth Ryngwladol: 17-18 pwynt mewn tri phwnc Lefel Uwch.

Eraill: Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn a'r rhai sy'n cynnig cymwysterau heblaw Safon Uwch, er enghraifft Bagloriaeth Cymru, BTEC, cyrsiau Mynediad achrededig.

Archwilir pob cais yn ôl ei rinweddau, ond mae'n ddymunol dangos astudiaeth weithredol a ffurfiol o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Dylai myfyrwyr rhyngwladol fod wedi ennill sgôr IELTS gyffredinol o 6.5, gydag o leiaf 5.5 ym mhob is-sgôr, neu dystiolaeth o hyfreddd cyfatebol yn yr iaith Saesneg.



Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym wedi ymrwmo i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl arferion a gweithgareddau.

Ein nod yw creu diwylliant cynhwysol sy'n rhydd o wahaniaethu ac yn seiliedig ar werthoedd urddas, cwrteisi a pharch. Rydym yn cydnabod hawl pawb i gael ei ystyried yn unol â'r egwyddorion hyn.

Rydym wedi ymrwmo i wella cydraddoldeb ar sail oedran, anabledd, aillbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred (gan gynnwys diffyg cred), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym hefyd am feithrin perthynas dda â grwpiau gwahanol.

Cewch ragor o wybodaeth yn: www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/equality-and-diversity

Diwrnodau agored

Mae'r brifysgol yn cynnal diwrnodau agored drwy gydol y flwyddyn i roi cyfle i unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno cais i Brifysgol Caerdydd gael rhagor o wybodaeth am fywyd yn y brifysgol a gweld yr hyn rydym yn ei gynnig.

Os byddwch yn gwneud cais ac yn cael cynnig lle, cewch wahoddiad i gwrdd â ni yn ein Diwrnodau Cadw Cynigion Ysgolion. Rydym yn eich annog yn gryf i ymuno â ni wrth wneud y penderfyniad pwysig hwnnw. Cewch y cyfle i glywed mwy am ein graddau a chyfarfod â staff, yn ogystal â chael cyfle i siarad â myfyrwyr presennol a chael blas ar ein prifddinas gosmopolitan.

Cymorth ar gyfer myfyrwyr

P'un a ydych yn defnyddio'r gwasanaethau cefnogi myfyrwyr neu beidio, mae'n galonogol gwybod eu bod ar gael pe bai eu hangen arnoch chi.

Dyrennir tiwtor personol i bob myfyrwr, ond mae gennym amrywiaeth o wasanaethau os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch.

Megis:

- Cymorth gydag Anabledd a Dyslecsia
- Canllawiau Cwnsela a Lles
- Cymorth i Fyfrwyr Rhyngwladol
E-bost: studentsupportcentre@caerdydd.ac.uk
Tel: +44 (0)29 2087 4844
- Cynllun Myfyrwyr sy'n Mentora
www.cardiff.ac.uk/cy/study/student-life/student-support

Ffioedd dysgu a chymorth ariannol

Mae'r brifysgol yn codi ffi flynyddol sy'n talu am yr holl ffioedd dysgu, cofrestru ac arholi heblaw ffi ailsefyll arholiadau gan fyfrwyr nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. Sylwch fod y ffioedd am lety ym Mhreswylfeydd y Brifysgol yn ychwanegol at hynny.

Ffioedd dysgu

Gweler y wefan ganlydol am ragor o wybodaeth:

www.caerdydd.ac.uk/ffioedd

Ysgoloriaethau a bwrsariaethau




Ewch i'r wefan ganlydol i gael rhagor o wybodaeth:

www.caerdydd.ac.uk/ysgoloriaethau



Sut i ddod o hyd i ni

Allwedd

-  Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol
-  Adeiladau'r Brifysgol a'r GIG
-  Preswylfeydd myfyrwyr

Sut i ddod o hyd i'r ysgol

Rydym wedi ein lleoli yn Adeilad Morgannwg, sydd wrth galon Campws Parc Cathays, taith gerdded fer o ganol y ddinas. Mae'r adeilad yn agos iawn at orsaf reilffordd Cathays ac mae'n hawdd ei gyrraedd o neuaddau preswyl y brifysgol.



Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyn myfyrwyr ar gyfer dechrau astudio yn 2025, ac roedd yn gywir pan aeth i'r wasg ym mis Mehefin 2024. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan: www.caerdydd.ac.uk cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'r wefan, cynnwys y wefan fydd yn cael blaenoriaeth ac yn nodi'r sail yr ydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Eich gradd: Mae myfyrwyr a dderbynnir i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.



Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o ffynonellau cynaliadwy, yn defnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prosiectws a'r broses gynhyrchu wedi'u hardystio gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu hefyd hyd at safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestrdedig, rhif 1136855.

Gellir trefnu i'r prosiectws hwn fodar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys mewn print bras (testun), mewn Braille, ac ar dâp sain / CD.

I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts:

Ffôn: **029 2087 4455**

E-bost: **RobertsL9@cardiff.ac.uk**



**I gael rhagor o wybod
am Ysgol y Gwyddorau
Cymdeithasol**



Cysylltu â ni

Ysgol y Gwyddorau
Cymdeithasol
Prifysgol Caerdydd
Adeilad Morgannwg
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 2WT

Cadwch mewn cysylltiad

